

CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun y 9fed o Fedi 2024 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.

1. Presennol; Cyng. Elwyn Evans, Miriam Webb, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Eleri Puw, Dylan Jarman Emrys Thompson, Robert D Jones, a Cyng Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)
2. Estynnwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Elwyn Evans. Estynnwyd croeso arbennig i'r Cyng Bethan Lawton, gan ddymuno yn dda iddi yn ei thriniaeth nes ymlaen yn yr wythnos.

Mynegwyd cydymdeimlad gyda Melita Ducros a'r teulu yn dilyn colli ei gwr Paul Ducros yn ddiweddar. Roedd wedi bod yn aelod o'r Cyngor Cymuned am rai blynyddoedd.

3. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
4. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Orffennaf** ar gynnig Cyng. Emrys Thompson a'l eilio gan Cyng Miriam Webb.

5. Materion yn codi

a) Materion Priffyrdd/llwybrau.

Roedd cadarnhad fod y twll/sianel ar y ffordd ger Dolffanog wedi ei ddatrys. Tra'n trafod hyn, nodwyd fod cwestiynau yn codi yng nghyswllt yr argymhellid i roi cyfyngder 30 oddiamgylch Talyllyn, a chadarnhodd Cyng Beth Lawton y byddai yn siarad am hyn gerbron Pwyllgor.

Roedd cwynion yn parhau am y cloddiau yn gordyfu ar Stryd Llanegryn, a oedd yn golygu fod y palmant yn ddim mwy na 2 droedfedd mewn manau, ac nad oedd hyn yn ddigon. Dywedodd Cyng Miriam Webb y byddai yn tynnu lluniau.

Yng nghyswllt gwneud llwybr ar y cae chwarae, roedd awgrym gan Cyng Steve Lewis i gael giat newydd a rhai slabiau er mwyn sicrhau i'r anabl ddod at y meinciau. Roedd amcangyfrif o £600 am ddeunyddiau, ond llafur yn ychwanegol, ond byddai hyn yn llawer gwell na cost gwneud llwybr. Byddai amcangyfrif mwy manwl ganddo erbyn y cyfarfod nesaf.

- b) **Rheilffordd Talyllyn** – yng nghyswllt y prosiect wagen lechi, nodwyd nad oedd Anna Lewis yn gweithio i Gyngor Gwynedd bellach. Roedd angen gwybod pwy oedd yn ei holynu yn y gwaith. Cadarnhawyd fod y llythyr swyddogol yn nodi llwydiant cais LleCHI LleNi wedi ei ddsbarthu i'r Cyngorhrowyr. Nodwyd fod angen diweddariad am amcangyfrif y wagen lechi gan Liz Porrett.
- c) **Coeden yn difrodi wal** – nid oedd diweddariad, ond nodwyd y byddai hyn ar y gweill yn fuan.
- d) **Archwiliad y cae chwarae gan ROSPA** – yn dilyn yr Archwiliad Blynyddol nodwyd fod yna rai materion angen sylw. Cafwyd cyfle yn ystod y drafodaeth i

ymweld a'r cae chwarae. Cytunodd Cyng Dylan Jarman a Cyng Emrys Thompson i geisio cael amcangyfrifon erbyn y tro nesaf.

Roedd y gwaith paentio gan Luke Genders wedi ei gwblhau. Ar gynnig Cyng Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Dylan Jarman, penderfynwyd i dalu yr anfoneb olaf, sef £150. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r Clerc ddanfon gair i nodi peth anfonolrwydd am safon y gwaith.

6. Materion Cynllunio

Cadarnhwyd nad oedd unrhyw faterion ers y cyfarfod diwethaf.

7. Materion Cyllid.

a) Cyfrifon 2023-24 - nodwyd nad oedd ymateb hyd yma gan Archwilio Cymru.

b) Roedd ail ran y praesept i law, sef £6000.

c) Roedd yr anfonebau canlynol i law, a chytunwyd fel a ganlyn;

- Ar gynnig Cyng Gwynedd Roberts a'i eilio gan Cyng Robert Jones cytunwyd i dalu anfoneb **Archwilio Cymru am archwilio cyfrifon 2022/23 – sef £200**
- Ar gynnig Cyng Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Steve Lewis cytunwyd i dalu anfoneb **Gwasanaeth Archwilio mewnol Cyngor Gwynedd, sef £330**
- Ar gynnig Cyng Eleri Puw a'i eilio gan Cyng Emrys Thompson, **cytunwyd i dalu anfoneb Cyngor Gwynedd am doiledau cyhoeddus Abergynolwyn - £2000** (sef cyfraniad am eu cad war agor yn yr haf)
- Ar gynnig Cyng Eleri Puw, a'i eilio gan Cyng Gwynedd Roberts, cytunwyd i dalu anfoneb RA Davies am **dorri gwair mynwent Llanfihangel y Pennant a'r Cae chwarae (toriad Gorffennaf)** sef £680. Hefyd **torri gwair mynwent Llanfihangel y Pennant a'r Cae chwarae (toriad Awst)** sef £680 a **torri gwair mynwent Y Fedw sef £420.**

Tra'n trafod hyn, gofynnwyd a fyddai modd cael amcangyfrifon am dorri coeden rhododendron ym mynwent Y Fedw, ac hefyd lladd y goeden.

- Ar gynnig Cyng Emrys Thompson, a'i eilio gan Cyng Robert Jones, **cytunwyd i dalu anfoneb Un Llais Cymru o £40**, sef hyfforddiant i Cyng Miriam Webb ar y 3/09/24. Diolchwyd i Miriam am wneud yr hyfforddiant, a byddai'r Clerc yn diweddarau y cynllun hyfforddiant maes o law.

d) Roedd un cais am arian i law, sf gan **Cerebral Palsy Cymru**, ond penderfynwyd peidio cyfrannu. Byddai'r Clerc yn diweddarau y manylion cyswllt.

8. Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)

Nid oedd adroddiad gan Cyng Beth Lawton, gan fod pob dim yn weddol dawel dros yr haf.

9. Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.

Cadarnhodd Cyng Elwyn Evans y byddai yn gwneud ei adroddiad yn y cyfarfod nesaf.

9. Gohebiaeth.

- a) **Gohebiaeth mynwent Eglwys Llanfihangel y Pennant**, - nodwyd e-bost pellach gan Helen Edwards (cyfeiriad yn Llundain) ynglyn a claddu llwch eu diweddar rieni mewn bedd newydd yn Llanfihangel y Pennant. Roedd hyn i ddigwydd ar Ddydd Sadwrn 14eg o Fedi. Roedd trefniant wedi ei wneud i Richard Griffiths agor y bedd, a chytunodd Cyng Robert Jones a Emrys Thompson ei gyfarfod am 11yb ar y 10fed o Fedi. Byddai hefyd yno i'w cyfarfod bore'e gwasanaeth. Cadarnhwyd fod y swm o £1498 wedi ei dderbyn i'r cyfrif. Nodwyd fod angen y dystysgrif gan y teulu.
- b) **Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru** – roedd dyddiadau hyd ddiwedd Medi wedi eu danfon i bawb.
- c) **Ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ar newid y sistem bleidleisio** – trafodwyd yn fyr, a byddai'r Clerc yn ei ddsbarthu.
- d) Nodwyd fanylion **cynhadledd Genedlaethol Un Llais Cymru yn Llanelwedd ar yr 16eg o Hydref**. Byddai'r Clerc yn ei ddsbarthu.
- e) Nodwyd yr angen i ddanfon **manylion taliadau Cynghorwyr I Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Medi**.
- f) Nodwyd ohebiaeth gan Gyngor Gwynedd am waith ar **Lwybr rhif 6 yn Rhiwlas**.
- g) Nodwyd digwyddiad ar y cyd rhwng **Un Llais Cymru a'r SLCC ar yr 20fed o Dachwedd**. Mwy o fanylion gan y Clerc.
- h) Nodwyd ohebiaeth Un Llais Cymru am **reol presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd** – sef absenoldeb am fwy na 6 mis.

10. Nid oedd unrhyw fater arall

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN NOS LUN
14eg o Hydref 2024 , 7.00y.h.**

CARTREF MARI JONES

Cadarnhwyd swm o £39 yn y blwch rhoddion. Byddai'r Clerc yn bancio.

LLANFIHANGEL Y PENNANT COMMUNITY COUNCIL

Minutes of a Council meeting held on Monday evening the 9th of September 2024 at 7.00pm in the Ganolfan, Abergynolwyn.

1. Present; Cllr. Elwyn Evans, Miriam Webb, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Eleri Puw, Dylan Jarman Emrys Thompson, Robert D Jones, and Cllr Bethan Lawton (Gwynedd Council) and Huw T Jones (Clerk)

2. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Elwyn Evans. A special welcome was extended to Cllr Bethan Lawton, wishing her well in her treatment later in the week.

Condolences were expressed to Melita Ducros and the family following the recent loss of her husband Paul Ducros. He had been a member of the Community Council for several years.

3. It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on matter on the Agenda.

4. The minutes of the meeting held on the 8th of July were confirmed on the proposal of Cllr. Emrys Thompson seconded by Cllr Miriam Webb.

5. Matters arising

a) Highways/pathways issues.

There was confirmation that the hole/channel on the road near Dolffanog had been resolved.

While discussing this, it was noted that questions were being raised in relation to the recommendation to give a 30 mile radius around Talylyn, and Cllr Beth Lawton confirmed that she would speak about this before a Committee.

Complaints continued about the hedges overgrowing on Llanegryn Street, which meant that the pavement was no more than 2 feet in places, and that this was not enough. Cllr Miriam Webb said she would take pictures.

In relation to making a path on the playing field, there was a suggestion from Cllr Steve Lewis to get a new gate and some slabs to ensure that the disabled can access the benches. There was an

estimate of £600 for materials, but labor was extra, but this would be much better than the cost of making a path. He would have a more detailed estimate by the next meeting.

b) Talyllyn Railway - in relation to the slate wagon project, it was noted that Anna Lewis no longer worked for Gwynedd Council. It was necessary to know who succeeded her in the work. It was confirmed that the official letter indicating the success of LleCHi LleNi's application had been distributed to Councillors. It was noted that an update was needed on the slate wagon estimate from Liz Porrett.

c) A tree damaging a wall - there was no update, but it was noted that this would be planned soon.

d) Inspection of the playing field by ROSPA - following the Annual Inspection it was noted that there were some issues that needed attention. There was an opportunity during the discussion to visit the playing field. Cllr Dylan Jarman and Cllr Emrys Thompson agreed to try to get estimates by next time.

The painting by Luke Genders had been completed. On the proposal of Cllr Emrys Thompson and seconded by Cllr Dylan Jarman, it was decided to pay the last invoice, which was £150. However, the Clerk was asked to send a word to indicate some dissatisfaction about the quality of the work.

6. Planning Matters

It was confirmed that there were no issues since the last meeting.

7. Finance Matters.

a) Accounts 2023-24 - it was noted that there had been no response so far from Audit Wales.

b) The second part of the precept was received, namely £6000.

c) The following invoices were received, and agreed as follows;

- On the proposal of Cllr Gwynedd Roberts and seconded by Cllr Robert Jones it was agreed to pay the Wales Audit invoice for the audit of the 2022/23 accounts - namely £200
- On the proposal of Cllr Emrys Thompson and seconded by Cllr Steve Lewis it was agreed to pay the invoice of Gwynedd Council's internal Audit Service, namely £330

- On the proposal of Cllr Eleri Puw and seconded by Cllr Emrys Thompson, it was agreed to pay Gwynedd Council's invoice for Abergynolwyn public toilets - £2000 (which is a contribution for their opening wall in the summer)
 - On the proposal of Cllr Eleri Puw, and seconded by Cllr Gwynedd Roberts, it was agreed to pay RA Davies' invoice for cutting the grass of Llanfihangel y Pennant cemetery and the playground (July cut) which is £680. Also cutting the grass of Llanfihangel y Pennant cemetery and the playground (August cut) which is £680 and cutting the grass of Y Fedw cemetery which is £420. Whilst discussing this, it was agreed that estimates should be obtained for cutting the Rhodedendron tree at the Fedw cemetery, and also kill the root thereafter.
 - On the proposal of Cllr Emrys Thompson, and seconded by Cllr Robert Jones, it was agreed to pay the Un Llais Cymru invoice of £40, namely training for Cllr Miriam Webb on 3/09/24. Miriam was thanked for doing the training, and the Clerk would update the training plan in due course.
- d) There was one request for money, sf from Cerebral Palsy Cymru, but it was decided not to contribute. The Clerk would update the contact details.

8. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

There was no report from Cllr Beth Lawton, as everything was fairly quiet over the summer.

9. Report of Cllr. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

Cllr Elwyn Evans confirmed that he would make his report at the next meeting.

9. Correspondence.

a) Llanfihangel y Pennant Church cemetery correspondence, - a further email was noted from Helen Edwards (address in London) regarding the burial of their late parents' ashes in a new grave in Llanfihangel y Pennant. This was to happen on Saturday 14th of September. An arrangement had been made for Richard Griffiths to open the grave, and Cllr Robert Jones and Emrys Thompson agreed to meet him at 11am on the 10th of September. He would also be there to meet them the morning of the service. It was

confirmed that the sum of £1498 had been received into the account. It was noted that the certificate was required from the family.

b) Un Llais Cymru training dates - dates up to the end of September had been sent to everyone.

c) Gwynedd Council's consultation on changing the voting system - discussed briefly, and the Clerk would distribute it.

d) The details of the One Voice Wales National conference in Llanellwedd on the 16th of October were noted. The Clerk would distribute it.

e) The need to deliver details of Councillors' payments to the Welsh Government by the end of September was noted.

f) Correspondence from Gwynedd Council regarding work on path route number 6 in Rhiwlas was noted.

g) A joint event between Un Llais Cymru and the SLCC was noted on the 20th of November. More details from the Clerk.

h) Un Llais Cymru's correspondence was noted regarding the attendance rule for members at meetings - namely absence for more than 6 months.

10. There was no other matter

DATE OF NEXT MEETING; THE CENTRE, ABERGYNOLWYN MONDAY 14th October 2024,
7.00 p.m.

.....

e)

CARTREF MARI JONES

A sum of £39 was received in the donations box. This would be banked by the Clerk.

.....

